# LLWYD, Syr DAFYDD (neu Dafydd Llwyd, ysgolhaig, neu Deio Ysgolhaig), bardd

**Enw:** Dafydd Llwyd
**Ffugenw:** Dafydd Llwyd, Ysgolhaig, Deio Ysgolhaig
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** bardd
**Maes gweithgaredd:** Barddoniaeth
**Awdur:** Benjamin George Owens

o gyfnod Elisabeth, a ddisgrifir yn ' Brithwaith Gwilym Pue ' (N.L.W. MS. 4710) fel offeiriad mwyn o Frycheiniog, neu Aberhonddu efallai ('lepidus ministellus Breconiensis'). Cadwyd tri chywydd (i ferch) o'i waith, gyda llawer o wahaniaethau geiriol, yn Cwrtmawr MS. 21, Cardiff MS. 64, NLW MS. 552, 832, 834, 5269, a ' Cywydd y Pwrs ' yn N.L.W. MS. 4710. Prentiswaith yw ei gywyddau, gyda thuedd at gynnwys geiriau Saesneg, ac oherwydd ei ffraethineb a'i ysgafnder yn hytrach na glendid ei iaith y codwyd ' Cywydd y Pwrs ' i'w lyfr gan Gwilym Pue.

## Awdur

**Benjamin George Owens**

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu